Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL CYMRU

Canllawiau Arfer Da

i fynd gyda
Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2019

Cyflwyniad

Dyfeisiwyd y canllawiau arfer hyn gan AFA Cymru ar ran Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, a gyda chymorth is-grŵp polisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Dylid defnyddio'r canllawiau wrth gymhwyso Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2019. Daeth y rheoliadau hyn i rym yn hydref 2019 ac maent yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ganllawiau statudol nac yn god ymarfer, ac felly nid yw'n ddyletswydd gyfreithiol ar asiantaethau mabwysiadu ac awdurdodau lleol i'w dilyn. Serch hynny, bydd yr amserlenni a geir yn y canllawiau yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Crëwyd y canllawiau gyda'r nod o ledaenu a datblygu arfer da cyson ledled Cymru, gan ddarparu gwasanaeth sy'n cyrraedd y safonau uchaf ledled y wlad ar gyfer y rheiny sy'n rhan o'r broses fabwysiadu. Mae pob un o'r pum rhanbarth a'r ddwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol yng Nghymru wedi chwarae rhan weithgar yn y gwaith o goladu'r canllawiau.

Nid yw'r canllawiau yn atal datblygiad arfer da sy'n unigryw i ranbarth neu asiantaeth benodol; mae'n gosod fframwaith y gall bob rhanbarth neu asiantaeth ei ddefnyddio i ddiwallu ei hanghenion penodol ei hun.

Mae'r canllawiau yn gyfyngedig i’r meysydd ymarfer y mae'r rheoliadau yn Rhan 4 yn effeithio arnynt: Dyletswyddau Asiantaeth Fabwysiadu mewn perthynas â Darpar Fabwysiadydd.

Mae'r canllawiau'n cyflwyno'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer pob rhan o'r broses asesu, a hynny mewn trefn gronolegol. Ni atgynhyrchwyd yr holl reoliadau, ond mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r arfer da a gyflwynir wedi cael eu hailadrodd. Yna, i ddilyn, ceir amlinelliad o’r fframwaith arfer da.

Mae'r canllawiau hefyd yn cyflwyno cyfres o ddogfennau *pro forma* y dylai pob asiantaeth eu mabwysiadu, a'u datblygu os yn briodol. Maent i’w gweld yn yr atodiadau

Diweddarwyd ffurflen Adroddiad y Darpar Fabwysiadydd CoramBAAF i Gymru ac mae ar gael at eich defnydd, ynghyd â nifer o ddogfennau sy'n mynd gyda’r ffurflen. Cyfeirir at y dogfennau hyn yn atodiadau 8, 10, 11, 21 a 29.

Sylwer: yn y canllawiau hyn cyfeirir at 'yr asiantaeth'. At ddiben y ddogfen hon, mae hyn yn cyfeirio at y pum trefniant cydweithredol rhanbarthol sy'n gweithredu, trwy Gyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015, ar ran y 22 asiantaeth fabwysiadu awdurdod lleol a'r ddwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol sydd ar waith yng Nghymru.

Cyfeirir at yr ymgeiswyr yn y broses fel:

- ‘Darpar fabwysiadwyr potensial' o'r ymholiad cychwynnol hyd nes ddechrau Cam 1
- 'Darpar fabwysiadwyr' o ddechrau Cam 1 hyd nes benderfyniad gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth;
- 'Mabwysiadwyr a gymeradwywyd' o benderfyniad gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth hyd nes ddyddiad y gorchymyn mabwysiadu.

Cyfeirir at yr uchod yn yr unigol, fel yn y rheoliadau, ond mae unrhyw gyfeiriad yr un mor berthnasol i gyplau sy'n ceisio dod yn rhieni sy'n mabwysiadu. Wrth gwrs, dylid rhoi asesiad ar y cyd i unrhyw gwpwl sy'n dymuno mabwysiadu, gan ystyried y rheoliad 'addasrwydd' 30(e): **wrth bennu addasrwydd cwpwl i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth roi ystyriaeth briodol i'r angen am sefydlogrwydd a pharhad yn eu perthynas.**

Ymholiadau Cychwynnol

Ni cheir cyfeiriad yn y rheoliadau at y broses y dylai'r rheiny sydd â diddordeb ei dilyn wrth holi'n gychwynnol, a'r broses i'w dilyn wrth i'r asiantaeth ymateb.

Arfer Da

Cyfeirir asiantaethau at Ganllawiau Arfer Gorau y GMC ar gyfer Ymholiadau Cychwynnol ynghylch Mabwysiadu.

Ar y cam cychwynnol hwn, dylai asiantaethau roi cyngor diduedd a ffeitihol i ddarpar fabwysiadwyr potensial. Os yw'n amlwg ar gam cynnar nad oes gan yr asiantaeth y cysylltwyd â hi y capasiti i recriwtio, er bod y darpar fabwysiadwyr potensial penodol hyn yn ymddangos fel rhai cymwys, neu os yw'n amlwg nad oes gan yr asiantaeth yr angen i'w recriwtio, yna dylid dangos y ffordd iddynt at ranbarthau eraill neu'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol.

1. Pan fydd darpar fabwysiadydd potensial yn gofyn am gyngor neu wybodaeth gyffredinol, dylid rhoi'r wybodaeth honno ar ffurf pecyn gwybodaeth o fewn **5 niwrnod gwaith**. Am fanylion yr hyn y dylid ei gynnwys mewn pecyn gwybodaeth, gweler Atodiad 1, ac mae'r llythyr i fynd gyda'r pecyn yn Atodiad 2. Dylai'r llythyr ofyn iddynt gysylltu â'r asiantaeth os ydynt wedi penderfynu cymryd y cam nesaf ac eisiau rhagor o wybodaeth. Dylid cofio ei bod yn iawn ac yn briodol i ddarpar fabwysiadwyr potensial gymryd eu hamser i ystyried eu sefyllfa ac i ymateb.

2. Wedi darparu'r pecyn gwybodaeth, gyda'r llythyr sy'n mynd gyda'r pecyn, os yw'r mabwysiadydd potensial eisiau gwybodaeth fanwl bellach neu'n dangos diddordeb mewn mynd ar drywydd y broses, yna dylai'r asiantaeth ymateb i'r cais hwn **o fewn 15 diwrnod gwaith** gyda llythyr (Atodiad 3) yn cynnwys manylion ynghylch sut y gellir cael gwybodaeth fanylach:

   - Gwahoddiad i'r digwyddiad gwybodaeth nesaf; cyfarfodydd gyda'r hwyr ac unrhyw gyfarfodydd gwybodaeth gan asiantaeth sy'n agos yn ddaearyddol os cynhelir y cyfarfodydd hynny ar ddyddiad cynharach;
   - Cyfarfod wedi ei drefnu ymlaen llaw, naill ai yng nghartref y darpar fabwysiadydd potensial neu yn swyddfa'r asiantaeth; neu
   - Galwad ffôn wedi ei threfnu ymlaen llaw.

Penderfynir pa un o'r uchod i'w gynnig ar sail yr amgylchiadau ac elfennau daearyddol.

Os yw'r unig gyswllt dilynol trwy noson wybodaeth lle nad oedd cyfle i gael trafodaeth breifat, yna dylid trefnu galwad ffôn, o leiaf, er mwyn sefydlu bod gan y darpar fabwysiadydd potensial ddigon o wybodaeth yn sail ar gyfer eu penderfyniad i gyflwyno'u ffurflen Cofrestru Diddordeb.

3. Yn dilyn noson wybodaeth, ymweliad wedi ei gynllunio neu alwad ffôn wedi ei chynllunio, bydd y darpar fabwysiadydd potensial yn cael un o dri llythyr (Atodiadau 4,5,6):

Atodiad 4: Llythyr yn cynnwys y Ffurflen Cofrestru Diddordeb, yn gofyn i ddarpar fabwysiadwyr potensial lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd at yr asiantaeth, yn nodi'r dyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant paratoi nesaf ac yn dweud wrth y darpar fabwysiadydd potensial y bydd yr asiantaeth yn derbyn eu Cofrestriad Diddordeb o fewn 10 niwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei dderbyn (gweler isod). Dylai'r

llythyr hefyd gynnwys y dyddiadau ar gyfer y gyfres nesaf o sesiynau hyfforddiant cyn-cymeradwyo, rhag ofn na fydd y darpar fabwysiadydd potensial yn gallu bod yn bresennol ar gyfer y cwrs cyntaf;

Atodiad 5: llythyr yn mynegi'r dymuniad bod y darpar fabwysiadydd potensial yn dychwelyd at yr asiantaeth ar ôl cyfnod o amser (yn gyffredinol heb fod yn hirach na 6 mis) lle bydd y darpar fabwysiadydd potensial wedi newid elfen o'u bywyd sy'n angenrheidiol er mwyn dechrau asesiad (e.e. rhoi'r gorau i smygu / addasu'r tŷ neu symud tŷ). Dylai'r llythyr nodi y bydd yr asiantaeth yn cysylltu â'r darpar fabwysiadwyr potensial eto wedi'r cyfnod o amser y cytunwyd arno os na chysylltir â nhw eu hunain.

Atodiad 6: llythyr yn esbonio nad yw'r darpar fabwysiadydd potensial yn gymwys, ac yn nodi rhesymau clir.

Dim ond wedi defnyddio'r meini prawf cymhwysedd yn llym y dylid diystyrru darpar fabwysiadydd potensial ar y cam cyn asesu, fel y nodir yn adrannau 49 - 50 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a rheoliad 25 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, fel y diwygiwyd gan reoliadau 2019 . Dyma'r meini prawf hynny:

- Preswylfa ddomisil neu arferol ar Ynysoedd Prydain.

  Cafwyd nifer o ymholiadau yn ddiweddar ynghylch y berthynas rhwng preswylfa ddomisil, preswylfa arferol a statws mewnfudo. Nid yw torri cyfraith fewnfudo, neu'r posibilrwydd o dorri cyfraith fewnfudo, yn atal rhywun rhag caffael ar breswylfa o'u dewis neu breswylfa arferol. Serch hynny, dylai asiantaethau gymryd gofal wrth asesu a chymeradwyo rhywun sydd â fawr o siawns o ennill statws mewnfudo preswylydd sefydlog, oherwydd gallai hynny effeithio ar eu gallu i gynnig sefydlogrwydd i blentyn yn yr hirdymor.

- Oedran (rhaid bod yn 21 neu'n hŷn)
- Nid ydyw wedi ei g/chael yn euog o 'drosedd benodedig'.

Dylid ystyried unrhyw ystriaethau eraill ym mhroses 'cyn asesu' Cam 1.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid penderfynu gwrthod ystyried darpar fabwysiadydd potensial ar gyfer y broses 'cyn asesu' a lle bo tystiolaeth glir eisoes na fyddai unrhyw asiantaeth fabwysiadu resymol yn eu hystyried fel rhai sy'n addas i fabwysiadu. Nid yw'n dderbyniol gwneud unrhyw wiriadau cyn cychwyn y broses cyn asesu / Cam 1 heb gydsyniad clir y darpar fabwysiadydd potensial (gweler pwynt 2 isod).

Lle mae yna bryderon yn ymwneud â diogelu neu bryderon eraill

Lle bo'r asiantaeth fabwysiadu yn credu y gallai fod amheuon ynghylch dilysrwydd ymholiad cychwynnol, neu mae ganddi bryderon ynghylch diogelwch aelod o staff sy'n ymweld â chartref rhywun, mae'r camau canlynol yn ymateb cymesur i'r pryderon:

1. Darparu gwybodaeth bellach, naill ai dros y ffôn neu trwy wahodd y darpar fabwysiadydd potensial i gyfarfod yn swyddfa'r asiantaeth.
2. Os yw'r pryder yn parhau ar ôl yr alwad neu'r cyfarfod, anfonwch y llythyr yn Atodiad 4 a fydd yn gofyn am ganiatâd i gynnal gwiriadau awdurdod lleol a gwiriadau heddlu (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu). Yna, caiff y gwiriadau hyn eu cynnal ar ddechrau Cam 1, cyn cynnal unrhyw fusnes arall. Os daw gwybodaeth i law yn ganlyniad i'r gwiriadau hyn ac yn sgil hyn mae'r asiantaeth fabwysiadu yn dod i'r casgliad nad

yw'r darpar fabwysiadydd potensial yn addas i fabwysiadu plentyn, yna gellir dod â Cham 1 i ben ar y pwynt yna, fel y nodir isod.

Lle cafwyd oedi cyn i'r sawl sy'n holi gysylltu

Dylid anfon y llythyr a geir yn Atodiad 7 os oes cyfnod o amser wedi mynd heibio ers y digwyddiad gwybodaeth, y cyfarfod neu'r alwad ffôn ac nid yw'r sawl sydd wedi holi wedi ymateb i wahoddiad i gyflwyno Cofrestriad Diddordeb. Dylai'r llythyr hwn atgoffa'r sawl sy'n ei dderbyn i gysylltu os oes ganddynt ddiddordeb o hyd, a dylai nodi bod yr asiantaeth yn hapus i drafod unrhyw beth ymhellach.

Cofrestru Diddordeb

Rhan 4: Dyletswyddau Asiantaeth Fabwysiadu o ran Darpar Fabwysiadydd

Cam 1 – y broses cyn asesu

Cofrestru diddordeb mewn mabwysiadu

21. Mae rheoliadau 22 i 27 yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo'r asiantaeth wedi hysbysu'r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu mewn cysylltiad â'r person hwnnw

Arfer Da

Mae'r ffurflen Cofrestru Diddordeb (Atodiad 8) yn nogfennau CoramBAAF.

Nid oes amserlen benodol i'r darpar fabwysiadydd ddychwelyd y ffurflen Cofrestru Diddordeb. Serch hynny, unwaith y bydd yr asiantaeth wedi cael y ffurflen, dylai benderfynu a ydyw'n mynd i fynd ymlaen at Gam 1 o fewn **10 niwrnod gwaith i dderbyn y ffurflen**. Fel y nodwyd uchod, ni ddylid gwrthod derbyn Cofrestriad Diddordeb ar sail unrhyw ystyriaethau heblaw am gymhwystra, onid oes tystiolaeth glir na fyddai unrhyw asiantaeth resymol yn ystyried eu bod yn addas i fabwysiadu plentyn. Dylid anfon llythyr yn nodi rhesymau clir dros y penderfyniad (Atodiad 6).

Unwaith y derbynnir y ffurfeln Cofrestru Diddordeb, o fewn y cyfnod o 10 niwrnod a grybwyllir uchod, mae'r cyfnod o ddeufis ar gyfer Cam 1 yn dechrau. Dylai rheolwr tîm ymgymryd â'r broses dderbyn ar gyfer Cofrestru Diddordeb, a dylai ysgrifennu llythyr derbyn (Atodiad 9) at y sawl sydd bellach yn ddarpar fabwysiadydd. Dylai'r llythyr gynnwys:

- Y dyddiad y derbyniwyd y ffurflen Cofrestru Diddordeb ac, felly, y dyddiad ar gyfer cwblhau Cam 1, onid oes materion penodol yn codi sy'n golygu nad oes modd cadw at yr amserlen honno;
- Enw gweithiwr cymdeithasol dynodedig y darpar fabwysiadydd, a fydd yn cysylltu â'r darpar fabwysiadydd o fewn y pythefnos nesaf;

- Copi o gynllun / cytundeb Cam 1 drafft (a geir yn Atodiad 10), a fydd yn cael ei gwblhau yn y cyfarfod cyntaf;
- ‘Pecyn Cam 1, sy'n rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol ar Gam 1 (ceir rhestr o gynnwys y pecyn yn Atodiad 11);
- Dyddiadau'r hyfforddiant paratoi y bydd y darpar fabwysiadydd yn mynd iddo.

Cam 1 (Cyn-asesu)

CYNLLUN CAM 1 DARPAR FABWYSIADYDD

22. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun cam 1 y darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys y materion canlynol:

a) gwybodaeth am y cwnsela, yr wybodaeth a'r paratoad ar gyfer mabwysiadu sydd i’w darparu o dan reoliad 24;
b) y weithdrefn ar gyfer cynnal gwiriadau heddlu o dan reoliad 25;
c) manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r darpar fabwysiadydd wedi cytuno i ymgymryd ag ef;
d) unrhyw amserlenni cymwys;
e) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau (gan gynnwys cwyn);
f) unrhyw wybodaeth arall y mae’r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol

Arfer Da

Dylid cynnal y cyfarfod i drafod y cynllun Cam 1 ac i baratoi'r cynllun hwn, heb fod yn hwyrach na phythefnos i'r dyddiad y derbyniwyd y ffurflen Cofrestru Diddordeb.

Mae'n bwysig fod y gweithiwr cymdeithasol dynodedig yn cael rhywfaint o gyswllt gyda'r darpar fabwysiadydd yn ystod y broses Cam 1. Mae amserlen Cam 2, sy'n bedair mis, yn gadael llai na thri mis ar gyfer cwblhau Adroddiad Darpar Fabwysiadydd. Bydd gofyn i'r asiantaeth, felly, ddechrau dod i adnabod y darpar fabwysiadydd ar Gam 1. Fan lleiaf, dylai fod cyfarfod / ymweliad wyneb yn wyneb, ar ddechrau Cam 1 ac ar ddiwedd Cam 1.

Mae yna restr wirio ar gyfer Cam 1 yn Atodiad 12. Mae'n offeryn monitro i asiantaethau er mwyn iddynt sicrhau bod pob elfen o Gam 1 yn cael eu cwblhau.

Cam 1 (Gwybodaeth)

Rheoliadau 25, 26 ac Atodlen 1, Rhan 4

Er nad ydyw wedi ei gynnwys yn y rheoliadau, gellid gofyn i ddarpar rhieni sy'n mabwysiadu ddechrau casglu 'datganiadau cefnogol agored', ar wahân i'r geirdaon personol, gan bobl sy'n gwybod am eu cysylltiad â phlant (aelodau o'r teulu / ffrindiau / gwaith gwirfoddol). Bydd hyn o gymorth i'r rheiny y mae gofyn iddynt ddangos tystiolaeth o rywfaint o brofiad gyda phlant er mwyn dechrau trefnu gwaith gwirfoddol.

Gwiriadau Heddlu

Gofyniad i gynnal gwiriadau heddlu

25. – (1). Mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 neu drosodd, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael tystysgrif cofnod troseddol manwl…

Arfer Da

Ar y cam cyn asesu, bydd darpar fabwysiadwyr potensial wedi cael gwybod, yn ysgrifenedig a thrwy drafodaeth, bod angen gwiriad heddlu er mwyn symud ymlaen i Gam 2. Byddant hefyd wedi cael gwybod bod yna rai troseddau penodol, ganddyn nhw neu aelod o'u haelwyd, sy'n golygu na fydd rhywun yn gymwys i fabwysiadu **(rheoliad 25(2) - (5)).** Serch hynny, mae yna nifer o droseddau a ddangosir ar wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd ddim yn rhwystro rhywun rhag dod yn rhiant sy'n mabwysiadu ond efallai y bydd gofyn eu harchwilio. Dylid annog darpar fabwysiadwyr a darpar fabwysiadwyr potensial i drafod unrhyw beth sy'n debygol o godi yn y gwiriad ar gam cynnar, gan gynnwys rhybuddion, y mae llawer o bobl o'r farn na fyddant yn cael eu cynnwys.

Os bydd trosedd neu rybudd yn cael eu dateglu, bydd gan yr asiantaeth broses ar waith i sicrhau mai uwch-reolwr sy'n penderfynu a ddylid symud ymlaen gyda'r cais ai peidio.

Mae gan yr asiantaeth fabwysiadu yr awdurdod hefyd i ofyn am wiriad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Fel arfer mae gwiriadau o'r fath yn ddefnyddiol pan fydd pryder yn ymwneud â diogelu neu wybodaeth am y darpar fabwysiadydd sy'n arwain at bryderon penodol. Fel yr amlygwyd uchod, os oes pryderon o'r fath, gellir gofyn am wiriad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu neu wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau ar unrhyw wybodaeth arall ar Gam 1, ond dylid gwneud hyn wedi dechrau ar Gam 1 yn unig. Os yw'r gwiriadau hynny yn datgelu gwybodaeth sy'n achosi i'r asiantaeth fabwysiadu ddod i'r casgliad nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, yna dylid cyfathrebu'r penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl, gan nodi rhesymau clir (gweler Atodiad 14).

Ni all asiantaeth fabwysiadu rannu gwybodaeth a geir yn natgeliad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gydag unrhyw un arall, gan gynnwys cymar, partner neu rywun sy’n byw ar yr aelwyd. Os yw asiantaeth fabwysiadu yn dod i'r casgliad nad yw darpar fabwysiadydd yn gymwys neu'n addas o

ganlyniad i wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yr unig wybodaeth y gellid ei rhoi i'r person neu bobl eraill sy'n gysylltiedig yw'r wybodaeth y daethpwyd i'r penderfyniad o ganlyniad i'r gwiriad. Ni ellir datgelu cynnwys y gwiriad.

Gwiriadau Tramor

Lle mae darpar fabwysiadydd wedi byw dramor am gyfnod estynedig (fel arfer chwe mis neu fwy), pan oedd yn 18 neu'n hŷn, dylid gofyn am wiriadau tramor. Gall fod yn anodd cael y rhain gan rai gwledydd penodol ac, os nad ydynt ar gael, dylai'r asiantaeth fabwysiadu geisio triongli tystiolaeth ynghylch cyfnod y darpar fabwysiadydd dramor, gan ddefnyddio, er enghraifft, geirdaon gan gyflogwyr neu eirdaon personol. Dylai asiantaethau mabwysiadu ymateb mewn ffordd gymesur ac ni ddylent achosi oedi diangen onid oes ganddynt bryderon rhesymol ynghylch y bwlch yn y gronoleg. Serch hynny, lle ystyrir bod gwiriadau tramor yn angenrheidiol, bydd gofyn i'r asiantaeth drafod yr amser y bydd hyn yn ei gymryd gyda'r darpar fabwysiadydd ac archwilio'r posibilrwydd y gallai fod gofyn ymestyn Cam 1.

Asesiadau Iechyd

((am 1)
26. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu –

(a) gael adroddiad ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig am iechyd y darpar fabwysiadydd yn dilyn archwiliad llawn y mae rhaid iddo gynnwys y materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 4.

(Cam 2)
30(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig, sy'n cynnwys -

(b) crynodeb, wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd;

Arfer Da

Mae sylfaen yr asesiad iechyd yn gadarn yng Ngham 1 ac mae'n hanfodol fod y gwiriad meddygol gan feddyg teulu'r darpar fabwysiadydd yn digwydd cyn gynted â phosibl o fewn y cyfnod o ddeufis, er mwyn i gynghorydd meddygol yr asiantaeth roi ystyriaeth iddo. Er bod y rheoliadau'n cyfeirio at grynodeb cynghorydd meddygol yr asiantaeth ar Gam 2 (rheoliad 30), mae hyn mewn perthynas â'r hyn y dylai Adroddiad y Darpar Fabwysiadydd ei gynnwys, ac nid pryd y dylid ei lunio. Nid yw'r gweithiwr cymdeithasol yn yr asiantaeth yn gallu llunio dadansoddiad clinigol o'r asesiad gan feddyg teulu'r darpar fabwysiadydd ac felly bydd gofyn i'r cynghorydd meddygol lunio eu hadroddiad ar yr asesiad yng Ngham 1 .

Mewn perthynas â phenderfyniad Cam 1, weithiau darperir gwybodaeth sy'n achosi i'r asiantaeth ddod i'r casgliad nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu oherwydd eu hiechyd. Neu, ar gyngor y cynghorydd meddygol, gellid delio ag effaith materion fel pwysau, smygu ayb. yn fwy priodol yn ystod Cam 2, neu gellid ystyried rhoi amser allan i'r darpar fabwysiadydd rhwng Cam 1 a Cham 2 er mwyn rhoi sylw i unrhyw bryderon. Os yw hyn yn wir, dylai'r asiantaeth sicrhau bod darpariaeth ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd i weld sut y mae'n dod ymlaen.

Geirdaon Personol

Atodlen 4 Rhan 1

Gwybodaeth i'w darparu yn ystod Cam 1

4. Enwau a chyfeiriadau tri chanolwr a fydd yn rhoi geirda personol am y darpar fabwysiadydd,na chaiff mwy nag un ohonynt fod yn berthynas iddo.

26. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud y canlynol –

(c) cael adroddiad ysgrifenedig ar bob un o'r cyfweliadau â'r personau a enwebwyd gan y darpar fabwysiadydd i ddarparu geirda personol ar gyfer y darpar fabwysiadydd.

Arfer Da

Dylid cwblhau'r gwaith o gasglu'r tri chanolwr, cael eu hadroddiadau ysgrifenedig, eu cyfweld a llunio adroddiad ar y cyfweliad(au), oll ar Gam 1. Serch hynny, mae asiantaethau mabwysiadu yn gwybod bod cyfweld â chanolwyr ar Gam 2 yn aml yn ddefnyddiol iawn, pan fyddant wedi mynd ymhellach i mewn i'r asesiad ac efallai eisiau archwilio meysydd penodol gyda'r canolwyr hynny.

Ni nodir yn rheoliad 26 (c) for yn rhaid i'r cyfweliad fod wyneb yn wyneb. Byddai'n bosibl, felly, cynnal cyfweliad dros y ffôn ar Gam 1, er mwyn bodloni'r gofynion rheoleiddiol, ac yna cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r canolwyr ar Gam 2 pan fyddai modd cael trafodaeth fanylach. Yn yr un modd, gellid cynnal ymweliad ar Gam 1 ac yna dilyn hyn gyda galwad ffôn ar Gam 2 er mwyn gwirio neu archwilio mater penodol gyda chanolwr, os teimlir bod hynny'n angenrheidiol.

Geirdaon gan Gyn-Bartneriaid

26. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu –

(d) pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, gael geirda personol gan gyn-briod, cyn-bartner sifil neu gyn-bartner y darpar fabwysiadydd;

Dylid cael geirda gan gyn-bartner ar Gam 1 os yw'r darpar fabwysiadydd wedi rhianta neu ofalu am blant a / neu lle roedd yn berthynas o bwys (fel arfer pan fyddant wedi cyd-fyw). Dylid penderfynu peidio â gofyn am eirda gan gyn-bartner dim ond pan fo rheswm da dros hynny, er enghraifft lle mae yna hanes o gam-drin domestig. Pan na ofynnir am eirda, yna dylid trionglu tystiolaeth o'r berthynas honno / cyfnod hwnnw o amser ym mywyd y darpar fabwysiadydd trwy ofyn i ganolwyr neu ddefnyddio ffynonellau eraill. Gellid cael trafodaeth wyneb yn wyneb ar Gam 1 os yw'r wybodaeth a ddarperir yn y geirda ysgrifenedig yn gofyn am archwilio materion ynghynt, neu ar Gam 2 os yw hynny'n briodol.

Yn Atodiad 13 ceir llythyr i gyn-bartneriaid, yn gofyn am eirda.

Gwiriadau Awdurdod Lleol

26. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu –

(e) pan nad yr awdurdod lleol y mae gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal ydyw, ganfod a oes gan yr awdurdod lleol y mae gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal unrhyw wybodaeth am y darpar fabwysiadydd danynt a all fod yn berthnasol i asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu ac os felly gael gan yr awdurdod hwnnw adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r wybodaeth honno; a

(f) pan fo gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ardal yr awdurdod lleol am lai na deuddeng mis, hefyd ganfod a oes gan yr awdurdod lleol yr oedd gan y darpar fabwysiadydd ei gartref blaenorol yn ei ardal unrhyw wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn berthnasol i asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu ac os felly gael gan yr awdurdod hwnnw adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r wybodaeth honno.

Arfer Da

Dylid cynnal gwiriadau awdurdod lleol ar gyfer y deng mlynedd ddiwethaf, boed hynny dan **26(e)** – yr awdurdod lle mae cartref y darpar fabwysiadydd neu dan **26 (f)**, unrhyw awdurdod lleol lle roedd ganddynt gartref yn flaenorol.

Gwiriadau Ychwanegol ar Gam Un

PLANT SY'N OEDOLION

25. – (1) Mewn cysylltiad ag ... unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 oed neu drosodd, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael tystysgrif cofnod troseddol manwl….

(2) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried person yn addas i fabwysiadu plentyn os yw'r person hwnnw neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd …. (wedi'i gollfarnu neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â'r rhestr o dramgwyddau penodedig).

Arfer Da

Dylid gofyn am wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unrhyw oedolyn, gan gynnwys plant sy'n oedolion, sy'n byw ar aelwyd y darpar fabwysiadydd.

Penderfyniad Cyn Asesu / Penderfyniad Cam 1

OEDI CYN DOD I BENDERFYNIAD CAM 1

27(3) Gall yr asiantaeth fabwysiadu oedi gwneud y penderfyniad o dan baragraff (1) - (Penderfyniad Cam Un)

a) **pan fo wedi'i bodloni bod rhesymau da oherwydd, er enghraifft, fod oedi wedi bod wrth gael gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd; neu**
b) **ar gais y darpar fabwysiadydd.**

Arfer Da

Dylai Cam 1 gymryd hirach na deufis dim ond lle cafwyd trafferth cael gwybodaeth anghenrheidiol, er enghraifft gwiriadau tramor. Dylai asiantaethau wneud pob peth posibl i atal oedi o'r fath ac, os oes oedi, nodi hynny ar gofnod y darpar fabwysiadydd. Dylid hysbysu darpar fabwysiadwyr am yr oedi ar lafar a chadarnhau hynny yn ysgrifenedig gan roi rhesymau clir. Gellid defnyddio Atodiad 16 at y diben hwn. Ni ddylid ymestyn Cam 1 am gyfnod o fwy na deufis.

Os yw'r darpar fabwysiadydd yn gofyn am oedi, yna dylid trafod y rheswm dros hynny a'i gofnodi'n fanwl gywir ar gofnod achos y darpar fabwysiadydd, ynghyd â'r cyfnod y cytunwyd arno cyn ailafael yn yr achos. Dylid egluro wrth y darpar fabwysiadydd bod cyfle i 'oedi a myfyrio' rhwng Cam 1 a Cham 2. Os yn bosibl, dylid cwblhau Cam 1 cyn cynllunio i oedi. Gweler Atodiad 15.

Os yw'r asiantaeth fabwysiadu eisiau mwy o amser, oherwydd ni ddychwelwyd geirda neu wiriad penodol, yna dylid defnyddio'r llythyr yn Atodiad 16.

Penderfyniad y gallai Darpar Fabwysiadydd fod yn Addas i Fabwysiadu

PENDERFYNIAD CYN ASESU

27. – (1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, wedi ystyried yr wybodaeth a gafwyd o dan reoliadau 25 (gwiriadau heddlu) **a 26** (gwybodaeth cyn asesu arall), **benderfynu –**

a) **y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwsyiadu plentyn; neu**
b) **gweler isod**

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r asiantaeth wneud ei phenderfyniad o dan baragraff (1) o fewn cyfnod o ddau fis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21.

(3) gweler isod

(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth –

a) **cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad, a**

b) esbonia i’r darpar fabwysiadydd fod rhaid iddo hysbysu’r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

Arfer Da

Mae Rheoliad 27(1) yn egluro bod yn rhaid i benderfyniad Cam 1 fod yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn rheoliad 25 (gwiriadau heddlu), rheoliad 26 (gwybodaeth cyn asesu arall) a'r wybodaeth a nodir yn Rhan 1 Atodlen 4.

Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n wybodaeth Cam 1 a'r hyn sy'n wybodaeth Cam 2 - er enghraifft gwybodaeth a ddarperir gan ganolwr am berthynas flaenorol, neu wybodaeth feddygol am gyflwr iechyd. Os oes amheueath, yna dylid gwahodd y darpar fabwysiadydd i Gam 2, wedi cael adborth realistig a gonest efallai na fyddant yn cael eu cymeradwyo. Dylid cofio mai'r penderfyniad ar ddiwedd Cam 1 yw y 'gall’ y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu neu 'nad yw'n‘ addas i fabwysiadu. Dylid dod i benderfyniadau ar ddiwedd Cam 1 sy'n atal y darpar fabwysiadydd rhag symud ymlaen i Gam 2 dim ond os yw'r dystiolaeth yn glir 'nad ydynt' yn addas. Mae yna gyfle o hyd i ddwyn y mater gerbron panel gydag adroddiad cryno os yw'r pryder sy'n cael ei gario ymlaen i Gam 2 yn cronni mwy o bwysau unwaith y ceir mwy o wybodaeth.

Dylid cynnal cyfarfod adolygu Cam 1 gyda'r darpar fabwysiadydd. Dylid gofyn iddynt lenwi eu taflen adborth eu hunain ar Gam 1 (Atodiad 17), cyn y cyfarfod, a fydd yn bwydo i mewn i'r adolygiad ei hun. Dylid cynnal yr adolygiad gan ddefnyddio templed cyfarfod adolygu Cam 1 (Atodiad 18). Diben yr adolygiad yw gwirio bod yr holl wybodaeth ar gyfer Cam 1 wedi cael ei chwblhau a chael adborth gan y darpar fabwysiadwyr ar eu proses cyn asesu.

Dylai'r rheolwr tîm / rheolwr llinell ar gyfer y gweithiwr cymdeithasol sydd wedi goruchwylio Cam 1 benderfynu a allai'r darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu neu nad yw'n addas i fabwysiadu ac a fyddant yn cael eu gwahodd ymlaen i Gam 2.

Unwaith y gwneir penderfyniad 'Gall fod yn Addas i Fabwysiadu'

Yn dilyn y penderfyniad y 'gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn‘ dylid anfon llythyr, fel y nodir yn rheoliad 27(4)(a) (Atodiad 19) at y darpar fabwysiadydd sy'n egluro mai cyfrifoldeb y darpar fabwysiadydd yw 'sbarduno' Cam 2 a bod gofyn iddynt ddweud wrth yr asiantaeth, yn ysgrifenedig, eu bod yn dymuno symud ymlaen, dan **reoliad 27(4)(b).**

Dylai'r llythyr hefyd gynnwys cyfeiriad at y posibilrwydd, a geir yn rheoliad 27(4)(b) o 0gyfnod o 'oedi a myfyrio rhwng Cam 1 a Cham 2. Dylai'r llythyr ofyn i'r darpar fabwysiadydd ddweud wrth yr asiantaeth am eu bwriad i ddefnyddio'r cyfnod hwn, fel bod modd pennu dyddiadau ar gyfer cyfarfod, dal i fyny a chynllunio. Dylid tynnu sylw darpar fabwysiadwyr hefyd at y ffaith y byddai disgwyl ailadrodd Cam 1, i raddau helaeth, petai'r cyfnod hwn yn hirach na 6 mis, gan ddibynnu ar amseru ac amgylchiadau penodol yr oedi.

Dylai asiantaethau nodi ar gofnod achos y darpar fabwysiadydd pryd y mae'r chwe mis yn dirwyn i ben a sicrhau bod darpar fabwysiadwyr yn cael y cyfle i sbarduno Cam 2 cyn i'r chwe mis ddirwyn i ben.

Pan benderfynir nad yw'r mabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn (27(4)

27. – (1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, gan ystyried yr wybodaeth a gafwyd o dan reoliadau 25 (gwiriadau heddlu) **a 26** (gwybodaeth cyn asesu arall), **benderfynu –**

b) nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn

(5) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad, hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad gan roi rhesymau dros ei phenderfyniad.

Arfer Da

Gan bod ymarferwyr mabwysiadu yn gweithio o fewn ethos o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest, bydd y darpar fabwysiadwyr wedi cael gwybod yn ystod proses Cam 1 ac yng nghyfarfod adolygu Cam 1, fod problemau difrifol gyda'r wybodaeth ar Gam 1, a bod hyn wedi arwain at gasgliad yr asiantaeth nad ydynt yn addas i fabwysiadu.

Mae gofyn rhoi'r penderfyniad yn ysgrifenedig **o fewn pum niwrnod gwaith** i'r penderfyniad. Dylid gwneud y penderfyniad o fewn y cyfnod o ddeufis o'r dyddiad Cofrestru Diddordeb.

Dylai'r llythyr (Atodiad 20) gynnwys rhesymau clir iawn i ddweud pam y mae'r wybodaeth ar Gam 1 yn arwain at y penderfyniad hwn. Dylai'r llythyr hefyd ddweud mai'r unig lwybr ar gyfer herio'r penderfyniad hwn yw dilyn gweithdrefn sylwadau a chwynion yr asiantaeth. Dylid darparu copi op'r weithdrefn gwyno berthnasol gyda'r llythyr. Nid yw penderfyniad ar ddiwedd Cam 1 yn ddyfarniad o gymhwyster.

Cam Dau (Asesiad)

27(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth –

(a) cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r darparu fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad, a

(b) esbonio i'r darpar fabwysiadydd fod rhaid iddo hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

Cam 2 – y penderfyniad asesu

Asesiad Cam 2

28.—(1) Mae rheoliadau 28 i 30G yn gymwys lle bo'r darpar fabwysiadydd yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadydd y gall fod yn addas i fabwysiadu o dan reoliad 27(4).

(2) Pan fo'r darpar fabwysiadydd yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu fwy na chwe mis ar ôl y dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadydd y gall fod yn addas i fabwysiadu o dan reoliad 27(4), rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig na all y darpar fabwysiadydd fwrw ymlaen â'r broses asesu.

Arfer Da

Bydd yr asiantaeth fabwysiadu wedi dweud wrth y darpar fabwysiadydd, yn y llythyr a ysgrifenwyd ar ddiwedd Cam 1 (Atodiad 19) mai'r darpar fabwysiadydd sydd i sbarduno Cam 2 a bod ganddynt chwe mis i wneud hynny.

Unwaith yr hysbysir yr asiantaeth fabwysiadu, yna dylai fod cyfarfod rhwng y gweithiwr cymdeithasol dynodedig a'r darpar fabwysiadydd i drafod llunio'r cynllun asesu:

Cynllun Asesu Darpar Fabwysiadydd

29. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghoriad â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys y materion canlynol –

a) y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn;
b) unrhyw amserlenni cymwys;
c) y trefniadau i'r darpar fabwysiadydd gael unrhyw gwnsela ychwanegol neu baratoad ychwanegol ar gyfer mabwysiadu;
d) manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r darpar fabwysiadydd wedi cytuno i ymgymryd ag ef;
e) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd yn y broses asesu;
f) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o dan reoliad 30B(5)(c); ac
g) unrhyw faterion eraill y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn berthnasol.

Arfer Da

Gan mai dim ond pedwar mis yw'r cyfnod ar gyfer cwblhau Cam 2 o'r dyddiad y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn cael hysbysiad gan y darpar fabwysiadydd eu bod yn dymuno symud ymlaen hyd nes y dyddiad y mae gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth yn dod i benderfyniad, mae gofyn llunio'r cynllun asesu a chytuno arno ar gam cynnar a heb fod yn hwyrach na phythefnos i'r dyddiad y cafwyd yr hysbysiad.

Mae'r pro forma ar gyfer cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd yn Atodiad 21 ynghyd â'r llythyr i fynd gydag ef (Atodiad 22) sy'n cydnabod hysbysiad ynghylch dymuniad i symud ymlaen ac yn rhoi'r *pro forma* i'r darpar fabwysiadydd ar gyfer cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd.

Bydd y cynllun yn cynnwys dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol, y dyddiad y disgwylir cynnal y panel ac unrhyw gynlluniau ar gyfer hyfforddiant pellach. Dylai hefyd roi manylion cynlluniau wrth gefn os digwydd i'r gweithiwr cymdeithasol enwebedig, er enghraifft, fethu â chwblhau'r asesiad.

Dylai'r llythyr hefyd nodi'r broses benderfynu, gan gynnwys gwybodaeth am gyfansoddiad y panel a'u rôl a rôl gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth.

Dylid cyfeirio at y posibilrwydd y gallai proses Cam 2 gymryd mwy na phedwar mis, mewn amgylchiadau eithriadol. Os oes oedi, dylai'r asiantaeth fabwysiadu anfon llythyr (Atodiad 23) at y darpar fabwysiadwyr, yn amlinellu'r rheswm dros yr oedi, pwy sydd wedi gofyn amdano a chynlluniau ar gyfer goresgyn unrhyw broblemau.

Yr Asesiad

30.- (1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 4

Atodlen 4, Rhan 3

Gwybodaeth sydd i'w darparu yn ystod Cam 2

Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd

1. **Llun a disgrifiad corfforol**
2. **Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol**
3. **Cred grefyddol**
4. **Y berthynas â'r plentyn (os oes un)**
5. **Disgrifiad o bersonoliaeth a diddordebau'r darpar fabwysiadydd**
6. **Coeden deulu gyda manylion y darpar fabwysiadydd, brodyr a chwiorydd y darpar fabwysiadydd ac unrhyw blant y darpar fabwysiadydd, gyda'u hoedrannau (neu eu hoedrannau pan fuont farw)**
7. **Cronoleg y darpar fabwysiadydd ers ei eni**
8. **Sylwadau'r darpar fabwysiadydd am ei brofiad ei hun o gael ei rianta a sut y mae hyn wedi dylanwadu arno**
9. **Manylion unrhyw brofiad sydd gan y darpar fabwysiadydd o ofalu am blant (gan gynnwys fel rhiant. llys-riant, rhiant maeth, gwarchodwr plant neu ddarpar fabwysiadydd) ac asesiad o allu'r darpar fabwysiadydd yn hyn o beth**
10. **Unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos sut y mae'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un arall sy'n byw ar aelwyd y darpar fabwysiadydd yn debygol o ymwneud â phlentyn sydd wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd**

Y Teulu Ehangach

11. **Disgrifiad o deulu ehangach y darpar fabwysiadydd a'u rôl a'u pwysigrwydd i'r darpar fabwysiadydd a'u rôl a'u pwysigrwydd tebygol i blentyn sydd wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd**

Gwybodaeth am gartref etc. y darpar fabwysiadydd

12. **Gwybodaeth am gartref y darpar fabwysiadydd a'r gymdogaeth y mae'r darpar fabwysiadydd yn byw ynddi**
13. **Gwybodaeth am gymuned leol y darpar fabwysiadydd, gan gynnwys i ba raddau y mae'r teulu wedi integreiddio â'i grŵp cymheiriaid, ei gyfeillgarwch a'i rwydweithiau cymdeithasol**

Addysg a chyflogaeth

14. **Manylion hanes a chyraeddiadau addysgol y darpar fabwysiadydd, a sylwadau'r darpar fabwysiadydd am sut y mae hyn wedi dylanwadu arno**
15. **Manylion hanes cyflogaeth y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r** darpar **fabwysiadydd am sut y mae hyn wedi dylanwadu arno**
16. **Cyflogaeth bresennol y darpar fabwysiadydd a barn y darpar fabwysiadydd am gyflawni cydbwysedd rhwng cyflogaeth a gofal plant**

Incwm

17. **Manylion incwm a gwariant y darpar fabwysiadydd**

Gwybodaeth arall

18. **Gwybodaeth am allu'r darpar fabwysiadydd i –**
    a) **darparu ar gyfer anghenion plentyn, yn benodol anghenion emosiynol ac anghenion o ran datblygu ymddygiadol;**
    b) **rhannu hanes plentyn a'r materion emosiynol cysylltiedig; ac**
    c) **deall a chefnogi plentyn drwy deimladau posibl o golled a thrawma**
19. **O ran y darpar fabwysiadydd -**
    a) **ei resymau dros ddymuno mabwysiadu plentyn;**
    b) **ei farn a'i deimladau am fabwysiadu a'i arwyddocâd;**
    c) **ei farn am ei allu i rianta;**
    d) **ei farn am gyfrifoldeb rhiant a'r hyn y mae'n ei olygu;**
    e) **ei farn am amgylchedd cartref addas i blentyn;**
    f) **ei farn am bwysigrwydd a gwerth addysg;**
    g) **ei farn a'i deimladau am bwysigrwydd magwraeth grefyddol a diwylliannol plentyn; ac**
    h) **unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu**

30(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig ("adroddiad y darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys –

a) **Yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a theulu'r darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhannau 1 a 3 o Atodlen 4** (gweler uchod – gwybodaeth Cam 1 a Cham 2)**;**
b) **Crynodeb, wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd;**
c) **Unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan reoliad 26(e)** (gwiriadau awdurdod lleol)

d) **Unrhyw arsylwadau gan yr asiantaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 24** (y gofyniad i roi cwnsela, gwybodaeth a pharatoad ar gyfer mabwysiadu) **a 25** (gofyniad i gynnal gwiriadau heddlu**;**
e) **Asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn, ac wrth bennu addasrwydd cwpwl i fabwysiadu plentyn rhaid bod yr asiantaeth yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen am sefydlogrwydd a pharhad yn eu perthynas; ac**
f) **Unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.**

Arfer Da

Ar ddechrau Cam 2 dylai'r asiantaeth fabwysiadu a'r darpar fabwysiadydd ddisgwyl bod y darpar fabwysiadwyr mewn sefyllfa dda iawn i gwblhau'r broses a dod yn rhieni sy'n mabwysiadu. Os oes unrhyw bryderon wrth fynd ymlaen at Gam 2, yna bydd y rhain wedi cael eu trafod yn ddidwyll ac yn agored ac wedi eu cofnodi.

Dylai'r asiantaeth fabwysiadu hefyd egluro wrth y darpar fabwysiadydd ei bod yn bwriadu gweld Cam 2 yn cael ei gwblhau, gyda phenderfyniad gan wneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth, cyn pen pedair mis. Serch hynny, ni ddylai'r amserlenni fod ar draul cadernid yr adroddiad.

Trafodaethau / Gwiriadau Cyfryngau Cymdeithasol

Nid yw'r gwiriadau hyn wedi eu cynnwys yn y rheoliadau ond ystyrir eu bod yn anghenrheidiol o ystyried y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn yr oes sydd ohoni.

Dylid dweud wrth ddarpar fabwysiadwyr fod gofyn cael trafodaeth ynghylch cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cam rhoi gwybodaeth. Yna, dylid cael y 'drafodaeth' hon am gyfryngau cymdeithasol ar Gam 2. Gellid gwneud hyn trwy eistedd wrth ochr y darpar fabwysiadydd a defnyddio peiriant chwilio gyda'ch gilydd i weld pa wybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus am y darpar fabwysiadydd. Yna, gallai'r ymarfer hwn arwain at drafodaeth am y materion sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol i deuluoedd sy'n mabwysiadu. Ar ddiwedd Cam 2 dylid gofyn i'r darpar fabwysiadydd lofnodi datganiad eu bod yn deall anaddasrwydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth / ffotograffau mewn perthynas ag unrhyw blentyn sy'n cael ei leoli gyda nhw neu ymchwilio i'r teulu biolegol trwy gyfryngau cymdeithasol. Cedwir y datganiad (Atodiad 24) ar gofnod eu hachos.

Adroddiadau Cryno

30(4)Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn cael gwybodaeth o dan baragraff (1) (Rhan 3, Atodlen 4) **neu wybodaeth arall mewn perthynas ag asesu'r darpar fabwysiadydd a'i bod o'r farn bod y darpar fabwysiadydd y annhebygol o gael ei ystyried yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff baratoi adroddiad y darpar fabwysiadydd o dan baragraff (2) er gwaethaf, o bosibl, nad yw'r asiantaeth wedi cael yr holl wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn ofynnol o dan y rheoliad hwn.**

(5) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu -

a. **Hysbysu'r darpar fabwysiadydd bod cais y darpar fabwysiadydd i'w atgyfeirio at y panel mabwysiadu;**
b. **rhoi copi o adroddiad y darpar fabwysiadydd i'r darpar fabwysiadydd;**
c. **gwahodd y darpar fabwysiadydd i anfon unrhyw arsylwadau yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad; ac**
d. **esbonio i'r darpar fabwysiadydd y caiff asiantaeth fabwysiadu, o dan amgylchiadau eithriadol, estyn yr amserlen y cyfeirir ati ym mharagraff (c) uchod.**

(6) Ar ddiwedd y 10 diwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5) (c) (neu, pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn estyn yr amserlen honno, cyn gynted â phosibl ar ôl i sylwadau'r darpar fabwysiadydd ddod i law), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon -

a. **adroddiad y darpar fabwysiadydd ac sylwadau'r darpar fabwysiadydd;**
b. **yr adroddiadau ysgrifenedig a'r geirdaon y cyfeirir atynt yn rheoliad 26(b) i (e)** (Gwybodaeth Cam 1) **ond yn achos adroddiadau a gafwyd yn unol â rheoliad 26(b)** (yr adroddiad meddygol) **dim ond os yw ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth yn ei chynghori i wneud hynny; ac**
c. **unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gafwyd gan yr asiantaeth,**

at y panel mabwysiadu.

(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ofynnol gan y panel mabwysiadu ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

Swyddogaethau'r panel mabwysiadu (mewn perthynas ag adroddiad cryno)

30A (3) Mewn perthynas ag achos darpar fabwysiadydd y mae adroddiad wedi'i baratoi mewn cysylltiad ag ef yn unol â rheoliad 30(2), rhaid i'r panel mabwysiadu naill ai –

a) **gofyn i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad darpar fabwysiadydd pellach, gan gwmpasu'r holl faterion a nodir yn rheoliad 30(2); neu**
b) **argymell nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.**

Arfer Da

Mae rheoliad 30A(3) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adegau pan nad yw asesiad yr asiantaeth fabwysiadu yn gyflawn o hyd (hynny yw ni thrafodwyd pob elfen o'r broses Cam 2), ond daeth

gwybodaeth i law, yn ystod y broses Cam 2, sy'n gwneud i'r asiantaeth fabwysiadu gredu efallai nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu.

Mae'n gam sylweddol i fynd â darpar fabwysiadydd i banel gydag adroddiad cryno, yn hytrach na chwblhau Cam 2 a mynd ag adroddiad llawn i'r panel. Bydd gofyn bod yr asiantaeth fabwysiadu yn glir bod yr wybodaeth ar Gam 2 sy'n achosi pryder yn ddigon cadarn o ran tystiolaeth i argymell nad yw'r mabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn. Yn Atodiad 25 ceir y *pro forma* ar gyfer y llythyr i ddarpar fabwysiadwyr sy'n rhoi gwybodaeth i ddweud pam y mae eu hasesiad yn mynd i gael adroddiad cryno, a'r trefniadau ar gyfer hynny.

Nid oes *pro forma* ar wahân ar gyfer adroddiad cryno. Dylai'r asiantaeth fabwysiadu ddefnyddio fformat / ffurflen Adroddiad Darpar Fabwysiadydd arferol, gan ddarparu'r wybodaeth a gasglwyd eisoes a dadansoddi'n glir yr wybodaeth sy'n arwain at ddwyn adroddiad cryno. Efallai y bydd rhai asiantaethau eisiau defnyddio'r fframwaith cymhwysedd wrth baratoi adroddiad cryno

Cyflwynir rôl y panel mewn perthynas ag adroddiad cryno yn rheoliad 30A(3) uchod. Mae gan y panel ddau opsiwn: gofyn am ddod ag adroddiad llawn ar y darpar fabwysiadydd yn ôl at y panel neu argymell i wneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

Yn ystod y broses hon, bydd y gweithiwr cymdeithasol dynodedig wedi trafod y pryderon yn ymwneud ag addasrwydd y darpar fabwysiadydd yn agored ac yn ddidwyll. Gan ddibynnu ar yr wybodaeth a ddaw i law, efallai y bydd y darpar fabwysiadydd ei hun yn penderfynu tynnu allan o'r broses, ar ôl cael cwnsela a chyngor. Os nad ydynt, yna mae'r holl ddarpariaethau mewn perthynas ag adroddiadau llawn yn berthnasol: rhoi 10 niwrnod i'r darpar fabwysiadydd gynnig sylwdau ar y ffurflen, mynd i'r panel ac, os mai'r dyfarniad o gymhwyster yw nad ydynt yn addas i fabwysiadu, y cyfle i gyflwyno sylwadau o'r newydd i banel neu gyflwyo cais i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol.

Yr unig wahaniaeth o ran gweithdrefn yw nad yw'r adroddiad meddygol yn mynd i'r panel a gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth yn awtomatig gydag adroddiad cryno. Os nad yw'r wybodaeth feddygol a ddarparwyd yn berthnasol i'r rhesymau dros fynd â'r adroddiad cryno i'r panel, yna gallai'r cynghorydd meddygol gynghori nad yw'n angenrheidiol ffeilio'r adroddiad meddygol (rheoliad 30(6)(b)). Dylai'r llythyr (Atodiad 26) sy'n cael ei anfon gan wneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth at y darpar fabwysiadydd nodi'n glir y rhesymau y cyflwynwyd adroddiad cryno i'r panel a gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth, y rhesymau dros ddod i'r dyfarniad o gymhwyster nad ydynt yn addas i fabwysiadu plentyn, a manylion eu hawl i ddychwelyd gerbron y panel neu i gyflwyno cais i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol. Yn Atodiad 27, ceir y llythyr sy'n esbonio bod yr asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu cwblhau'r asesiad, ac yn nodi y bydd yr asiantaeth yn cysylltu o fewn y **pythefnos** nesaf i drefnu ailafael yn yr asesiad.

Ymweliadau Ail Farn ac Adolygiadau Tymor Canolig

Wedi drafftio'r Adroddiad ar y Darparwyr Fabwysiadydd, os oes mater o bryder sylweddol efallai y teimlir y byddai'n briodol cynnal ymweliad i gael barn rhywun arall. Dylai rheolwr tîm neu uwch-aelod o'r tîm wneud hynny, a dylent lunio'u hadroddiad, ei lofnodi, nodi'r dyddiad arno a'i atodi at yr Adroddiad ar y Darpar Fabwysiadydd.

Dylai darpar fabwysiadwyr fod yn glir ynghylch y rheswm dros yr ymweliad a'r sail sy'n achosi pryder.

Ni ddylid cynnal ymweliadau ail farn fer mater o drefn. Os yw gweithiwr cymdeithasol heblaw'r gweithiwr cymdeithasol a ddynodwyd ar gyfer y darpar fabwysiadydd yn cynnal ymweliad fel mater o

drefn, yna dylid cynnal yr ymweliad a chynnig esboniad drosto gan nodi mai ymweliad 'sicrhau ansawdd' neu 'adolygiad tymor canolig' ydyw, ac nad yw'n rhoi sylw i unrhyw bryderon penodol ond mai adolygiad o'r broses gyfan hyd yn hyn ydyw. Byddai gofyn cynnal unrhyw ymweliad adolygiad tymor canolig o fewn 2.5 mis i ddechrau Cam 2. Gweler Atodiad 28 am pro forma ar gyfer llythyr ail farn.

Gofalwyr Maeth / Mabwysiadwyr Blaenorol

Cymhwyso Rhan 4 gydag addasiadau i bersonau penodedig

30F - (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni bod y darpar fabwysiadydd –

(a) yn rhiant maeth a gymeradwywyd; neu
(b) wedi mabwysiadu plentyn erioed o'r blaen -
- **(i) yng Nghymru a Lloegr, ar ôl cael ei asesu'n addas i fabwysiadu yn unol â'r Rheoliadau hyn neu Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005** (rheoliadau Saesneg)**; neu**
- **(ii) ar ôl cael ei asesu'n addas i fabwysiadu yn unol â Rheoliadau Mabwysiadu gydag Elfen Dramor 2005.**

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae Rhan 4 yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 4A.

Rheoliadau ATODLEN 4A

Addasiadau i Ran 4

1. **Nid yw Rheoliad 22** (cynllun cam 1 darpar fabwysiadydd) **yn berthnasol.**
2. **Mae Rheoliadau 24** (Gofynion i roi cwnsela, gwybodaeth a pharatoad at fabwysiadu), **25** (Gofynion i gynnal gwiriadau heddlu) **a 26** (Gwybodaeth gyn-asesu arall) **yn berthnasol dim ond pan fo asiantaeth fabwysiadu o'r farn fod hynny'n angenrheidiol.**
3. **Nid yw Rheoliadau 27** (Penderfyniad cyn asesu) **a 28** (cyfnod oedi a myfyrio posibl rhwng Cam 1 a Cham 2) **yn berthnasol.**
4. **Mae Rheoliad 30** (Adroddiad y darpar fabwysiadydd) **yn berthnasol fel petai yr -**
   (a) **hepgorwyd paragraffau (1)** (dyletswydd i gael gwybodaeth yn Atodlen 4) **a (4)** (cyfeiriad at adroddiad cryno) **.**
   (b) **Ar gyfer paragraff (2)** (beth ddylid ei gynnwys yn Adroddiad y Darparwr Fabwysiadydd) **rhoddwyd y canlynol yn lle –**
   "(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig ("adroddiad y darpar fabwysiadydd" sy'n cynnwys –
   (a) crynodeb, lle bo'n berthnasol. Wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, am gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd;
   (b) pan fo'n berthnasol, unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 25 (gofyniad i gynnal gwiriadau heddlu**);**
   (b) pan fo'n berthnasol, unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth dan reoliad 26 (gwybodaeth cyn asesu arall, os teimlir ei bod yn angenrheidiol);

(d) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn: ac wrth bennu addasrwydd cwpwl i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth roi ystyriaeth briodol i'r angen am sefydlogrwydd a pharhad yn eu perthynas; ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol ym marn yr asiantaeth ," a
(e) gosodwyd y geiriau "pan fo'n berthnasol" ar ddechrau paragraff (6)(b)
(cyfeiriadau at wybodaeth cyn asesu rheoliad 26)

(3) Lle bo darpar fabwysiadydd yn rhiant maeth a gymeradwywyd ac mae'n cydsynio, gallai'r asiantaeth fabwysiadu ofyn am fynediad at unrhyw gofnodion perthnasol a luniwyd mewn perthynas â'r gymeradwyaeth honno gan ddarparwr y gwasanaethau maethu.
(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "rhiant maeth a gymeradwywyd" yw rhywun a gymeradwyir fel rhiant maeth yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019, ond nid yw'n cynnwys rhywun y gosodwyd plentyn gydag ef/hi dan reoliad 26 (cymeradwyaeth dros dro i berthynas, ffrind neu rywun arall sydd â chysylltiad ag C) neu 28 ... (yn y rheoliadau Saesneg cywerth).

Arfer Da

Mae'r rheiny sydd wedi mabwysiadu yn flaenorol a gofalwyr maeth sydd wedi eu cymeradwyo ar hyn o bryd, yn gallu mynd heibio i Gam 1 a dechrau'r broses ar Gam 2. Serch hynny, gall asiantaethau mabwysiadu gynnal gwiriadau Cam 1 (gwiriadau heddlu neu wiriadau cyn asesu eraill) os ydynt yn 'berthnasol'. Dylai asiantaethau mabwysiadu ystyried beth fyddai'n berthnasol ac yn gymesur ei wneud yn yr amgylchiadau. Dylid ystyried gwiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau meddygol os oes tair blynedd wedi mynd heibio ers eu gwneud ddiwethaf.

Er mai dim ond pedwar mis y dylai proses y llwybr carlam ei gymryd, ni ddylai fod diffyg cadernid yn yr adroddiad ei hun. Os mai gofalwyr maeth yw'r ymgeiswyr, bydd arnynt angen amser i archwilio a myfyrio ar oblygiadau dod yn rhieni sy'n mabwysiadu, naill ai ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ganddynt neu blentyn na adnabuwyd eto. Wrth asesu'r rheiny sy'n mabwysiadu am yr eildro neu'r trydydd tro, bydd gofyn i'r asesiad ystyried y plentyn neu'r plant sydd eisoes wedi eu lleoli gyda nhw; sut y mae'r darpar fabwysiadydd wedi addasu at fod yn rhiant y tro cyntaf; sut y mae'r lleoliad gwreiddiol wedi dod yn ei flaen; beth yw barn, dyheadau a theimladau y darpar fabwysiadydd a'r plentyn am gael aelod newydd o'r teulu; a oes gan y darpar fabwysiadydd y capasiti i fodloni anghenion ail blentyn neu blentyn arall? A ydyw'n deall nad dim ond gofalu am ddau blentyn y bydd, ond hefyd helpu'r ddau blentyn i integreiddio i gyfansoddiad newydd strwythur y teulu? Os nad brawd neu chwaer yw'r plentyn, a yw'n barod ar gyfer trefniadau cyswllt a gwaith taith bywyd gyda dau set o deuluoedd biolegol?

Dylai unrhyw asesiad ar gyfer rhywun sy'n mabwysiadu am yr eildro neu'r trydydd tro ehangu ar hanes ymlyniad a thrawma'r plant/plentyn yn y lleoliad a dadansoddi effaith bosibl lleoli plentyn arall ar yr aelwyd, a hynny ar y plentyn/plant a'r darpar fabwysiadydd.

Dyma rai o'r materion y mae angen eu hystyried gyda phroses y llwybr carlam. Efallai bod materion eraill sy'n benodol i'r teulu dan sylw hefyd. Maent yn faterion cymhleth i'w hasesu ac mae angen

amser ac adnoddau i sicrhau bod y darpar fabwysiadwyr yn addas i fabwysiadu unrhyw blentyn ychwanegol.

Gweler Atodiad 29 am y pro forma ar gyfer llythyr i ddechrau proses llwybr carlam.

Atodiadau

		Tudalen
1	Beth ddylai pecyn gwybodaeth ei gynnwys?	25
2	Llythyr i fynd gyda gwybodaeth gyffredinol	26
3	Llythyr yn dilyn cais am wybodaeth fanwl	27
4	Llythyr i wahodd cofrestriad diddordeb	28
5	Llythyr i awgrymu oedi cyn cofrestru diddordeb	29
6	Llythyr pan nad oes gwahoddiad i gofrestru diddordeb	30
7	Llythyr pan fydd ymholwr yn oedi rhag cysylltu	31
8	Ffurflen Cofrestru Diddordeb	32
9	Llythyr yn derbyn Cofrestriad Diddordeb	33
10	Cynllun/Cytundeb Cam 1	34
11	Cynnwys Pecyn Cam 1	35
12	Rhestr Wirio Cam 1	36
13	Cais am eirda gan gyn-bartner	37
14	Llythyr yn dilyn gwybodaeth gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd /Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu	38
15	Llythyr yn dilyn cais darpar fabwysiadydd i ohirio Cam 1	39
16	Llythyr yn dweud wrth ddarpar fabwysiadydd fod yr asiantaeth fabwysiadu angen mwy o amser ar Gam 1	40
17	Taflen adborth y darpar fabwysiadydd ar Gam 1	41
18	Templed Cyfarfod Adolygu Cam 1	42
19	Llythyr ar ddiwedd Cam 1 – Efallai y byddwch yn addas i fabwysiadu	44
20	Llythyr ar ddiwedd Cam 1 – Nid ydych yn addas i fabwysiadu	45
21	Cytundeb/Cynllun Asesu Cam 2 y darpar fabwysiadydd	46
22	Cydnabod hysbysiad ynghylch dymuniad i fynd ymlaen i Gam 2	47
23	Cadarnhau oedi ar Gam 2	48
24	Datganiad ynghylch y defnydd o gyfryngau cymdeithasol	49
25	Pam y mae asesiad yn mynd i'r panel (Adroddiad Cryno)	50
26	Dyfarniad o gymhwyster – Ddim yn addas yn dilyn adroddiad cryno	51
27	Gwneuthurwr Penderfyniadau yr Asiantaeth – Penderfyniad i gwblhau Adroddiad y Darpar Fabwysiadydd yn dilyn Adroddiad Cryno	52
28	Llythyr ail farn	53
29	Llythyr llwybr carlam	54

Atodiad 1

Beth ddylai pecyn gwybodaeth ei gynnwys?

- Croeso i'r asiantaeth a manylion yr asiantaeth
- Y plant sydd angen eu mabwysiadu (esboniad cryno)
- Am bwy yr ydym yn chwilio i fod yn rhieni sy'n mabwysiadu (chwalu'r mythau)
- Ydych chi'n barod i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu (amgylchiadau presennol / llety / plant biolegol / profiad o ofalu am blant / ysmygu / triniaeth IVF neu ffrwythlondeb ddiweddar / materion meddygol sylweddol). Prin yw'r elfennau sy'n rhwystrau absoliwt:
- Meini prawf cymhwystra (pan na fyddwn yn gallu eich derbyn)
- Y broses ar ôl i chi gael yr wybodaeth hon (rydych yn gofyn am wybodaeth bellach a byddwn yn darparu digwyddiad gwybodaeth neu'n trefnu cyfarfod ymlaen llaw)
- Esboniad cryno o'r broses (Cofrestru Diddordeb / Cam 1 / hyfforddiant paratoi a beth mae hynny'n ei olygu / Cam 2 / Panel / Gwneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth / cyllid teuluol / cyfateb / lleoli / gorchymyn / cymorth)
- Esboniad ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ar Gam 1 (geirdaon / gwiriadau ayb)
- Camau nesaf

Atodiad 2

Llythyr i fynd gyda gwybodaeth gyffredinol

Diolch am holi ynglŷn â mabwysiadu gyda (Agency).

Yn amgaeedig mae yna becyn gwybodaeth i chi ei ddarllen a meddwl ychydig yn fwy am yr hyn y mae'r broses fabwysiadu yn ei olygu a chreu neu gwblhau eich teulu yn y ffordd hon. Fe welwch ei bod yn broses gymhleth ond mae (asiantaeth) yn barod i drafod unrhyw gwestiynau neu bryderon ar bob adeg.

Ar ôl darllen y pecyn gwybodaeth, os ydych yn penderfynu yr hoffech gymryd y cam nesaf, da chi cysylltwch â ni (manylion) ac fe allwn drefnu darparu gwybodaeth fanylach ar eich cyfer trwy ddigwyddiad, cyfarfod neu alwad ffôn.

Atodiad 3

Llythyr yn dilyn cais am wybodaeth fanwl

Diolch am fynegi diddordeb mewn cael gwybodaeth fanylach am fabwysiadu. Rydym yn falch eich bod wedi penderfynu cymryd y cam hwn.

Hoffem eich gwahodd i:

a) *Ddod i'n digwyddiad gwybodaeth nesaf (manylion).*
b) *Dod i noson wybodaeth yn (trefniant cydweithio arall) oherwydd cynhelir eu digwyddiad nesaf nhw cyn ein digwyddiad nesaf ni, a chewch yr un wybodaeth yn y digwyddiad hwnnw ag y byddech yn ei chael yn ein digwyddiad ni (manylion).*
c) *Cysylltu â ni (manylion) ac fe drefnwn ymweld â chi i drafod ymhellach.*
d) *Cysylltu â ni ac fe drefnwn amser i chi ymweld â ni yn ein swyddfeydd (manylion).*
e) *Cysylltu â ni ac fe drefnwn drafod gyda chi dros y ffôn.*

Yn ystod y digwyddiad / cyfarfod / drafodaeth byddwn yn gallu dod i'ch adnabod chi a'ch amgylchiadau eich hun ychydig yn well a'ch cynghori ai dyma'r adeg iawn i chi gyflwyno eich ffurflen 'Cofrestru Diddordeb' er mwyn dechrau ar y broses cyn asesu.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Atodiad 4

Llythyr yn dilyn digwyddiad gwybodaeth / cyfarfod er mwyn gwahodd cofrestriad diddordeb

Diolch am ddod i'r digwyddiad gwybodaeth / cyfarfod / yr alwad ffôn yn ddiweddar.

Rydym yn deall yr hoffech gael eich asesu fel rhieni sy'n mabwysiadu / rhiant sy'n mabwysiadu, ac felly hoffem eich gwahodd i lenwi eich ffurflen 'Cofrestru Diddordeb', sy'n atodol. Os byddai'n well gennych ei llenwi'n electronig, cofiwch ddweud.

Byddwn yn derbyn eich Cofrestriad Diddordeb yn ffurfiol ddeng niwrnod wedi i ni ei gael gennych. Bydd yr amserlen o ddeufis ar gyfer Cam 1 yn y broses asesu yn dechrau ar y dyddiad hwnnw.

Cynhelir ein hyfforddiant paratoi nesaf ar (manylion). Gobeithiwn y byddwch yn gallu dod ar y dyddiadau hyn. Serch hynny, os nad ydych yn gallu dod, cynhelir yr hyfforddiant nesaf ar (dyddiadau).

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich Cofrestriad Diddordeb a chadarnhad eich bod yn gallu dod i'r hyfforddiant.

Atodiad 5

Llythyr yn dilyn digwyddiad gwybodaeth / cyfarfod yn awgrymu oedi cyn cofrestru diddordeb

Diolch am ddod i'r digwyddiad gwybodaeth / cyfarfod gyda ni / yr alwad ffôn yn ddiweddar.

Deallwn yr hoffech gael eich asesu fel rhieni sy'n mabwysiadu / rhiant sy'n mabwysiadu, ac fel asiantaeth mae gennym ddiddordeb yn eich asesu fel rhieni sy'n mabwysiadu. Serch hynny, yn ystod ein trafodaethau nodwyd:

- *Bod angen amser arnoch yn dilyn triniaeth IVF / ffrwythlondeb*
- *Bod hyn yn fuan wedi colled / salwch*
- *Eich bod yn y broses o symud tŷ / yng nghanol gwaith adnewyddu mawr*
- *Bod y berthynas yn newydd iawn*
- *Bod gennych blant ifainc*

Rydym yn awgrymu, felly, eich bod yn Cofrestru eich Diddordeb gyda ni (unwaith y byddwch wedi gwneud rhywbeth yn benodol / unwaith y bydd cyfnod o amser wedi mynd heibio). Yna, dylech fod mewn gwell sefyllfa i fod yn barod ar gyfer eich asesiad.

Cofiwch eich bod yn bwysig i ni fel darpar fabwysiadwyr potensial a byddwn yn cysylltu â chi cyn pen (amser) i weld sut y mae pethau'n dod yn eu blaen, gyda golwg ar eich cael i Gofrestru eich Diddordeb gyda ni bryd hynny.

Atodiad 6

Llythyr yn dilyn digwyddiad gwybodaeth / cyfarfod lle nad oes gwahoddiad i gyflwyno cofrestriad diddordeb

Diolch am ddod i'r digwyddiad gwybodaeth / cyfarfod gyda ni / yr alwad ffôn yn ddiweddar.

(Fel yr esboniwyd ar y pryd,)

a) *ar sail yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi, dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, nid yw pobl yn cael mabwysiadu plentyn os (manylion rheoliad 25).*
neu

b) *ar sail yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi, mae yna dystiolaeth glir o amgylchiadau eithriadol (manylion) sy'n gwneud i ni gredu na fyddai unrhyw banel neu wneuthurwr penderfyniadau mewn asiantaeth yn argymell eich cymeradwyo neu'n eich cymeradwyo fel rhiant/rhieni sy'n mabwysiadu.*

Mae'n ddrwg iawn gennym, felly, na allwn dderbyn Cofrestriad Diddordeb gennych.

Atodiad 7

Llythyr pan fydd darpar fabwysiadydd potensial yn oedi rhag cysylltu

Ysgrifennom atoch ychydig yn ôl (dyddiad) yn eich gwahodd i Gofrestru eich Diddordeb mewn cael asesiad fel rhiant / rhieni sy'n mabwysiadu. Rydym yn cysylltu â chi i weld a oes diddordeb gennych o hyd neu a oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod.

Rydym yn cydnabod bod hwn yn benderfyniad pwysig a bod arnoch angen amser i sicrhau mai dyma'r penderfyniad iawn i chi.

Da chi, cysylltwch â ni os allwn fod o gymorth mewn unrhyw ffordd.

DEWISOL

Os nad ydym yn clywed gennych o fewn y mis nesaf, byddwn yn cymryd eich bod wedi penderfynu peidio â symud ymlaen ar hyn o bryd. Serch hynny, mae croeso i chi ddod yn ôl atom yn nes ymlaen.

Atodiad 8

Ffurflen cofrestru diddordeb

Gweler y ffurflen CoramBAAF

Atodiad 9

Llythyr derbyn cofrestriad diddordeb

(wedi'i ysgrifennu gan reolwr tîm)

Rydym yn falch iawn i dderbyn eich Cofrestriad Diddordeb, o (dyddiad - o fewn pythefnos i'w dderbyn).

Mae'r cyfnod o ddeufis ar gyfer eich proses Cam 1 yn dechrau o'r dyddiad hwn a rhagwelir y bydd Cam 1 yn cael ei gwblhau erbyn (dyddiad), onid oes materion penodol yn codi sy'n gofyn am amser ychwanegol.

Eich cyswllt (enw'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig neu weithiwr Cam 1) yw (enw). Byddant yn cysylltu â chi o fewn y pythefnos nesaf.

Yn atodol mae cytundeb / cynllun Cam 1 drafft, er mwyn i chi edrych arno. Bydd yn cael ei gwblhau yn ystod eich cyfarfod cyntaf gyda (enw).

Yn amgaeedig hefyd mae Pecyn Cam 1, sy'n darparu gwvbodaeth am yr hyn sy'n ofynnol gennych yn ystod Cam 1.

Rydym yn cadarnhau eich bod yn dod i'r hyfforddiant paratoi ar (dyddiad).

Atodiad 10

Cytundeb / Cynllun Cam 1

Gweler y ffurflen Coram BAAF

Atodiad 11

Cynnwys Pecyn Cam 1

- Gwybodaeth am y broses Cam 1 / Cam 2 gan gynnwys rôl a manylion y panel a gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth (os na roddwyd yr wybodaeth hon yn barod)
- Gwybodaeth am yr hyfforddiant a geir ar Gam 1 (os na roddwyd yr wybodaeth hon yn barod)
- Gwybodaeth am yr hyfforddiant i aelodau o'r teulu a ffrindiau
- Holiadur i ymgeiswyr ei lenwi (gweler ffurflen hunan-asesu Cam 1 CoramBAAF)
- Genogram (ynghyd â chanllawiau ar ei lenwi)
- Ecomap (ynghyd â chanllawiau ar ei lenwi)
- Canllawiau ar ddewis canolwyr
- Gwybodaeth am wiriadau Cam 1 eraill (meddygol / Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Awdurdod Lleol / cyn-bartner / dramor)
- Gwybodaeth am gael profiad gofal plant
- Rhestr ddarllen / rhestr o wefannau defnyddiol

Atodiad 12

Rhestr wirio Cam 1

Offeryn monitro yw hwn ar gyfer asiantaethau:

GWEITHGAREDD / GEIRDA	DYDDIAD CWBLHAU / CAEL
Cymhwystra	
Hyfforddiant paratoi	
Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu	
Meddygol	
Gwiriad Awdurdod Lleol	
Gwiriad cyn-bartner	
Canolwyr - cyfweliad?	
Profiad o ofal plant	
Gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol yn Atodlen 4, Rhan 1 – enw, dyddiad geni, cyfeiriad - Manylion achosion llys blaenorol - Manylion unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas flaenorol	
Aelodau o'r aelwyd a phlant sy'n oedolion nad ydynt yn byw ar yr aelwyd	
Gwiriadau tramor	

Atodiad 13

Cais am eirda gan gyn-bartner

Parthed (enw'r ymgeisydd)

Rydym yn ysgrifennu atoch gan fod eich cyn-bartner / gymar wedi ymgeisio i ddod yn rhiant sy'n mabwysiadu.

Fel rhan o'r broses hon, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod (enw) yn addas i fabwysiadu ac rydym yn gofyn am eirda gan amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys cyn-bartneriaid /gymheiriaid. Mae (enw) wedi rhoi eich enw chi am y rheswm hwn.

A fyddech mor garedig â llenwi'r ffurflen atodol a'i dychwelyd atom cyn gynted â phosibl.

Os oes unrhyw bryderon neu gwestiynau gennych, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni. Diolch yn fawr i chi am eich cymorth.

Ymgeisydd:

Gogyfer â chais (enw) i (enw'r asiantaeth fabwysiadu) i fabwysiadu

Mae gennyf / nid oes* gennyf bryderon ynghylch y cais i fabwysiadu uchod

* (Dileer fel sy'n briodol)

Unrhyw sylwadau pellach (os ydych wedi nodi bod gennych bryderon dylech amlinellu'r rhesymau dros y pryderon hynny isod)

……

……

……

……

……

Llofnod:

Dyddiad:

Atodiad 14

Llythyr yn dilyn Gwybodaeth gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Cyfrifiadur Cenedlathol yr Heddlu

Fel yr ydych yn gwybod, fel rhan o broses cyn asesu Cam 1, rydych wedi rhoi caniatâd i ni i gael gwiriad manwl Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chaniatâd i ofyn am wiriad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

O ganlyniad i wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu rydym wedi cael gwybodaeth bod (manylion).

Nid oeddech wedi dweud wrthym am yr wybodaeth / euogfarn / rhybudd yma, er i ni eich cynghori i fod yn onest ac yn agored trwy gydol ein trafodaethau a'r broses cyn asesu.

O ganlyniad, nid yw (asiantaeth) yn credu eich bod yn addas i fabwysiadu (rhesymau) ac ni fyddwn yn symud ymlaen i asesiad Cam 2 gyda chi.

Atodiad 15

Llythyr yn dilyn cais darpar fabwysiadydd i ohirio Cam 1

Rydym yn ysgrifennu i gadarnhau yr hoffech ohirio proses cyn asesu Cam 1. Mae hyn oherwydd (rhesymau'r darpar fabwysiadydd).

Yn ystod ein trafodaethau, rydym wedi dweud wrthych y gallwch ofyn am gyfnod o hyd at chwe mis i 'oedi a myfyrio' rhwng Camau 1 a 2, unwaith y byddwch wedi cwblhau Cam 1. Serch hynny, oherwydd eich amgylchiadau mae arnoch angen y saib hwn nawr yn hytrach nag ar ddiwedd Cam 1

Rydym yn cytuno i'r saib byr hwn yn y broses ac yn cadarnhau y byddwn yn ailddechrau Cam 1 ar (dyddiad).

A wnewch chi ein diweddaru am unrhyw ddigwyddiadau / gynnydd. Os na fyddwn wedi clywed gennych, byddwn yn cysylltu â chi ar gyrraedd y dyddiad yr ydym wedi cytuno arno ar gyfer ailddechrau Cam 1.

Atodiad 16

Llythyr yn dweud wrth ddarpar fabwysiadydd fod angen mwy o amser ar yr asiantaeth fabwysiadu ar Gam 1

Fel yr ydych yn gwybod, dylid cwblhau proses cyn asesu Cam 1 o fewn deufis. Serch hynny, nid ydym wedi gallu cadw at yr amserlen hon oherwydd (manylion y rheswm dros yr oedi) ac felly rydym yn ymestyn y broses Cam 1 trwy gyfnod o (amser).

Atodiad 17

Taflen adborth darpar fabwysiadydd ar Gam 1

ENW(AU) …….

DYDDIAD DECHRAU CAM 1 …….....

1) Yn eich barn chi, pa mor dda y trafodwyd eich ymholiad gan yr asiantaeth wedi i chi gysylltu am y tro cyntaf?

2) Beth yw'r prif bethau yr ydych wedi eu dysgu o'r hyfforddiant a'r broses hyd yn hyn?

3) Beth yw eich teimladau am y broses o ddarparu cymaint o wybodaeth amdanoch chi'ch hun?

4) A oes unrhyw bryderon neu ofnau gennych am y broses hyd yn hyn neu symud ymlaen i Gam 2?

5) Ydych chi'n teimlo'n barod i symud ymlaen i Gam 2?

6) Yn olaf, allwch chi roi adborth i ni ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a'r hyn y gallem ei wella yn eich barn chi?

Diolch yn fawr.

Llofnod darpar fabwysiadydd Dyddiad

Llofnod darpar fabwysiadydd Dyddiad

Atodiad 18

Templed Cyfarfod Adolygu Cam 1

Cyfarfod Adolygu Cam 1

Enw'r darpar fabwysiadydd/fabwysiadwyr .....

Enw'r gweithiwr cymdeithasol / dynodedig .....

Enw'r rheolwr tîm .....

Dyddiad Dechrau Cam 1 .....

1. Esboniad o ddiben y cyfarfod adolygu a'r camau nesaf

2. Gofyn am adborth:
    - Sut mae pethau wedi mynd hyd yn hyn, yn gyffredinol?
    - A yw Cam 1 wedi mynd fel y rhagwelwyd y byddai'n mynd?
    - Beth oedd yr ymateb i'r hyfforddiant ymbaratoi?
    - Sut y mae'r gwaith ysgrifenedig wedi mynd?
    - Sut y maent wedi dod ymlaen gyda'r gweithiwr cymdeithasol / dynodedig?
    - A oes unrhyw bryderon mawr?

3. Sut y mae elfennau eraill o'r broses wedi mynd o ran deall y broses:
    - Gwneud eu hymchwil eu hunain ar-lein / darllen?
    - Cwrdd â phobl sy'n mabwysiadu?
    - Siarad ag aelodau o'r teulu a ffrindiau?

4. Gwiriadau a geirdaon (gweler rhestr wirio Cam 1)
    - Unrhyw beth yn weddill?
    - Unrhyw beth yn gofyn am oedi cyn cwblhau Cam 1?

5. Profiad o ofal plant
    - Eisoes wedi dechrau?
    - Cynlluniau ar gyfer Cam 2 ac ar ôl cael cymeradwyaeth?
    - Asesu unrhyw angen am brofiad ychwanegol

6. Adnabod prif gryfderau a heriau

7. Rhesymau dros argymell Cam 2

Camau nesaf:

Hysbysu'r darpar fabwysiadwyr a ydynt yn gallu symud ymlaen i Gam 2, ac y bydd llythyr i ddilyn.

NEU

Bydd yr asiantaeth yn cysylltu dros y ffôn / trwy lythyr gyda phenderfyniad

Llofnod darpar fabwysiadydd ……. Dyddiad ……..

Llofnod darpar fabwysiadydd ……. Dyddiad ……..

Llofnod rheolwr tîm ……. Dyddiad ……..

Atodiad 19

Llythyr ar ddiwedd Cam 1 – Gallech fod yn addas i fabwysiadu

Rydym yn falch iawn o ddweud wrthych eich bod wedi cwblhau'r broses gyn-asesu (Cam 1) yn llwyddiannus ac mae (asiantaeth) wedi penderfynu y gallech fod yn addas i fabwysiadu. Rydym felly yn eich gwahodd i gymryd rhan yn yr asesiad Cam 2.

Fel y byddwch nawr yn gwybod, mae yna broses reoleiddiol lem sy'n rhwymo'r broses ar gyfer cael eich asesu fel rhieni sy'n mabwysiadu. Fel darpar fabwysiadydd, rhaid i chi ddweud wrthym, yn ysgrifenedig (bydd e-bost yn iawn) eich bod eisiau symud ymlaen i Gam 2. Unwaith y byddwn ni wedi derbyn eich llythyr neu neges e-bost, bydd y cyfnod o bedwar mis ar gyfer cwblhau Cam 2 yn dechrau.

Mae gennych chwe mis i ddweud wrthym eich bod eisiau symud ymlaen i Gam 2.O'n trafodaethau, rydym yn gwybod:

a) yr hoffech symud ymlaen cyn gynted â phosibl, ac os felly edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan; neu
b) yr hoffech gyfnod i 'oedi a myfyrio' am (yr amser a gytunwyd) er mwyn (X, Y, Z). Buasem yn ddiolchgar pe medrech ddweud, yn ysgrifenedig (bydd neges e-bost yn gwneud y tro yn iawn), mai dyma'n bendant yw eich bwriad, ac felly yna gallwn amserlennu amser i ddal i fyny gyda chi, cwrdd a chynllunio Cam 2.

Dylech gofio, os ydych yn cymryd mwy na chwe mis i ddweud wrthym eich bod eisiau symud ymlaen i Gam 2, yna mae yna berygl y bydd yn rhaid i chi ailadrodd rhywfaint o'r broses Cam 1.

Cofiwch ein diweddaru am unrhyw gynnydd; rydym yn hapus i siarad dros pethau ar unrhyw adeg.

Atodiad 20

Llythyr ar ddiwedd Cam 1 – Nid ydych yn addas i fabwysiadu

Ymhellach i'n trafodaethau a wedi i chi gwblhau proses cyn asesu Cam 1 i gael eich cymeradwyo fel rhieni sy'n mabwysiadu, mae'n ddrwg gennym ddweud wrthych ein bod wedi penderfynu nad ydych yn addas i fabwysiadu ac felly na fyddwn yn eich gwahodd i symud ymlaen i Gam 2.

Fel yr ydych yn gwybod, rydym wedi bod yn onest ac yn ddidwyll gyda chi am ein pryderon ynghylch eich addasrwydd. Mae ein penderfyniad yn seiliedig ar y rhesymau canlynol:

DYLID RHOI RHESYMAU LLAWN

Os ydych yn credu ein bod yn anghywir wrth ddod i'r penderfyniad hwn neu eich bod wedi cael eich trin yn annheg, mae gennych yr hawl i fynd ar drywydd gweithdrefn sylwadau a chwynion yr asiantaeth, ac mae copi o'r weithdrefn honno yn amgaeedig.

Atodiad 21

Cytundeb / Cynllun Asesu Darpar Fabwysiadydd (Cam 2)

Gweler y ffurflen CoramBAAF

Atodiad 22

Llythyr yn cydnabod hysbysiad o ddymuniad i symud ymlaen gyda Cham 2

Diolch i chi am eich e-bost / llythyr yn hysbysu eich bod wedi penderfynu symud ymlaen at asesiad / Cam 2. Rydym wrth ein bodd â'ch penderfyniad a hoffem gwrdd â chi ar (dyddiad - o fewn pythefnos i'r hysbysiad). A wnewch chi gadarnhau eich bod ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn?

Yn amgaeedig / atodol mae yna gopi o gytundeb / cynllun Cam 2. Bydd y ddogfen hon yn sylfaen ar gyfer y cyfarfod cyntaf hwn yng Ngham 2 gyda'ch gweithiwr cymdeithasol dynodedig (Enw).

Nawr eich bod chi ar Gam 2 byddwch yn gweithio tuag at eich adroddiad darpar fabwysiadydd, a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron panel (enw'r asiantaeth) am argymhelliad a phenderfyniad gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth ynghylch eich addasrwydd i fabwysiadu plentyn. Mae yna wybodaeth am gyfansoddiad a rôl y panel a rôl gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth yn y pecyn gwybodaeth a roddwyd i chi ar ddechrau Cam 1. Bydd cyfle hefyd i chi siarad am y panel yn ystod eich asesiad.

Byddwch yn gwybod y dylid cwblhau eich asesiad a dod i benderfyniad ynghylch eich addasrwydd i fabwysiadu o fewn 4 mis i'ch hysbysiad. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd gofyn gohirio (efallai y bydd rhywbeth yn digwydd yn eich bywyd nad oedd modd ei ragweld neu rywbeth sy'n codi yn ystod yr asesiad sy'n gofyn am amser ychwanegol). Os oes oedi'n digwydd, bydd gofyn i ni fod yn glir ynghylch diben yr oedi a hyd yr oedi.

Atodiad 23

Llythyr yn cadarnhau oedi yng Ngham 2

Fel yr ydych yn gwybod, ni ddylai proses asesu Cam 2 gymryd mwy na phedwar mis, o'r dyddiad yr ydych yn ein hysbysu eich bod eisiau symud ymlaen i Gam 2, i benderfyniad gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth ynghylch eich addasrwydd i fabwysiadu.

Serch hynny, oherwydd amgylchiadau eich asesiad mae angen mwy o amser.

(Naill ai:)

a) rydych wedi gofyn am oedi am (amser) oherwydd (rhesymau). Rydym wedi cytuno i'r oedi hwn a byddwn yn cysylltu â chi wythnos cyn i'r cyfnod y cytunwyd arno ddod i ben, er mwyn cynllunio gweddill yr asesiad; neu

b) rydym wedi penderfynu bod arnom angen (amser) arall er mwyn archwilio agwedd benodol ar eich asesiad (manylion a rhesymau). Bydd y gwaith ychwanegol hwn yn cymryd (amser) ac yn golygu y dylai Cam 2 fod wedi ei gwblhau o fewn (amser)

Os (a): Cofiwch ein diweddaru am eich cynnydd..

Atodiad 24

Datganiad ynghylch y defnydd o gyfryngau cymdeithasol

Rwyf i / rydym ni. (enwau) yn cytuno, os ydym yn symud ymlaen i asesiad Cam 2, yn rhan o'r asesiad bydd yr (asiantaeth fabwysiadu) yn cael mynediad at wybodaeth amadanaf i / amdanom ni, trwy beiriant chwilio, sydd yn y parth cyhoeddus. Rwyf i / rydym ni yn deall y bydd ein haseswr yn gwneud y chwiliad hwn gyda ni.

Rwyf i /rydym ni yn deall, fel darpar rieni sy'n mabwysiadu a rhieni sy'n mabwysiadu, y bydd gofyn i ni fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Rwyf i / rydym ni yn cytuno na fyddaf / fyddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, gan gynnwys ffotograffau, o unrhyw blentyn a leolir gyda ni. Unwaith y bydd gorchymyn mabwysiadu mewn grym ac mae gennym gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn/plant a leolir, byddwn yn parhau i fod yn ofalus er mwyn amddiffyn preifatrwydd ein teulu.

Llofnod ……..

Dyddiad ……..

Atodiad 25

Llythyr – Pam y mae'r asesiad yn mynd gerbron panel ar gyfer adroddiad cryno

Fel yr ydym wedi trafod, yn ystod eich asesiad rydym wedi darganfod / dysgu (manylion).

Mae'r wybodaeth hon wedi achosi cryn dipyn o bryder i ni ac felly rydym wedi penderfynu cyfeirio eich asesiad at ein panel a gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth ar gyfer 'adroddiad cryno'.

Paratoir adroddiad cryno pan mae'r wybodaeth a gafwyd hyd yn hyn ar Gam 2 yn achosi digon o bryder i'r asiantaeth i ofyn i'r panel am ei farn ar eich addasrwydd i fabwysiadu cyn cwblhau'r asesiad cyfan. Er bod eich asesiad yn anghyflawn, rydym yn gofyn i'r panel wneud un o ddau argymhelliad:

1) *ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd hyd yn hyn nad ydych yn addas i fabwysiadu. Os mai dyma fydd yr argymhelliad, bydd yn mynd at wneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth am benderfyniad; neu*
2) *mae'r asiantaeth yn paratoi adroddiad pellach (sy'n cwblhau'r Adroddiad Darpar Fabwysiadydd ac yn dod â'r adroddiad cyflawn yn ôl i'r panel). Os yw'r Panel yn argymell y llwybr hwn byddwn yn cwblhau eich Adroddiad Darpar Fabwysiadydd ac yn ei gyflwyno gerbron y panel eto.*

Byddwn yn anfon copi o'ch adroddiad darpar fabwysiadydd atoch o fewn y (x niwrnod) nesaf. Gofynnwn i chi anfon unrhyw arsylwadau sydd gennych ar yr adroddiad, yn ysgrifenedig, o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr Adroddiad Darpar Fabwysiadydd. Efallai y caiff yr amserlen ar gyfer cwblhau eich arsylwadau ei ymestyn mewn amgylchiadau neilltuol. A wnewch chi roi gwybod i ni os ydych yn credu bod arnoch angen mwy na 10 niwrnod i ymateb.

Atodiad 26

Llythyr gan Wneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth – Dyfarniad o Gymhwyster nad yw'n addas i fabwysiadu yn dilyn adroddiad cryno

Ysgrifennaf atoch i ddweud wrthych, wedi ystyried yr adroddiad cryno a fu gerbron y panel ar (dyddiad), fy mod wedi gwneud 'dyfarniad o gymhwyster' cymhwyso' nad ydych yn addas i fabwysiadu plentyn, am y rhesymau canlynol:

RHESYMAU

Deallaf y bydd hyn yn newyddion siomedig i chi.

Yn dilyn fy mhenderfyniad sy'n cymhwyso, mae gennych dri opsiwn:

1) *derbyn y dyfarniad o gymhwyster. Os ydych yn penderfynu ar yr opsiwn hwn, a wnewch chi ddweud wrth y swyddfa hon o fewn 40 niwrnod i ddyddiad y llythyr hwn, mai dyma yw eich penderfyniad;*

2) *Cyflwyno sylwadau i'r asiantaeth fabwysiadu i'r panel edrych ar yr adroddiad cryno eto a gwneud argymhelliad o'r newydd y byddaf i, fel gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth, yn edrych arno eto. Gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig y bydd y panel a finnau yn edrych arnynt wrth ystyried eich adroddiad cryno eto. Mae angen i chi roi gwybod i'r swyddfa hon o fewn 40 niwrnod i ddyddiad y llythyr hwn a ydych yn dymuno cymryd yr opsiwn hwn a darparu unrhyw sylwadau ysgrifenedig o fewn yr un cyfnod o amser.*

3) *Cyflwyno cais i banel adolygu annibynnol am adolygiad o'r dyfarniad o gymhwyster. Atodaf daflen sy'n esbonio rôl y mecanwaith adolygu annibynnol. Bydd arnoch angen gofyn am yr adolygiad hwn o fewn 40 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn, gan nodi'ch rhesymau dros ofyn. Unwaith y bydd y panel adolygu annibynnol wedi gwneud argymhelliad o'r newydd, bydd yn ei anfon atom ac yna fi, fel gwneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth, fydd yn ystyried yr argymhelliad hwnnw wrth ddod i benderfyniad terfynol.*

Os nad ydym yn clywed gennych o fewn 40 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn (rhowch y dyddiad) bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn dod i benderfyniad nad ydych yn addas i fabwysiadu a byddwch yn cael eich hysbysu ynghylch y penderfyniad hwnnw.

Atodiad 27

Llythyr Gwneuthurwr Penderfyniadau'r Asiantaeth – Penderfyniad i gwblhau adroddiad darpar fabwysiadydd a dychwelyd at y panel

Fel yr ydych yn gwybod, aeth 'adroddiad cryno' gerbron panel yr asiantaeth fabwysiadu ar (dyddiad). Yn y panel hwnnw, gwnaethpwyd argymhelliad bod yr asiantaeth yn paratoi adroddiad pellach - hynny yw cwblhau eich Adroddiad Darpar Fabwysiadydd a dod â'r ddogfen lawn yn ôl gerbron y panel ar gyfer argymhelliad o'r newydd a fy mhenderfyniad sy'n cymhwyso.

Nid oedd y panel yn gallu argymell eich bod yn anaddas i fabwysiadu ac felly mae angen i ni barhau gyda'ch asesiad ac rydym yn dymuno gwneud hynny.

Byddwn mewn cysylltiad yn fuan iawn i gynllunio ar gyfer gweddill proses asesu Cam 2.

Atodiad 28

Llythyr ail farn

Fel yr ydych yn gwybod o'r trafodaethau gyda'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi bod yn eich asesu (enw), yn ystod eich asesiad Cam 2 codwyd pryder ynghylch (manylion).

Oherwydd hynny, hoffwn drefnu cwrdd â chi i drafod y mater penodol hwn. Yr enw ar hyn yw 'ymweliad ail farn' a byddwn yn cael y cyfle i siarad am y pryderon sydd gan yr asiantaeth a'ch ymateb chi. Mae cofnod o fy ymweliad yn rhan o'ch adroddiad darpar fabwysiadydd.

Manylion yr ymweliad a gynigir.

Edrychaf ymlaen at eich gweld ar XX

Atodiad 29

Llythyr Llwybr Carlam

Fel rhywun sy'n mabwysiadu am yr eildro / gofalwr maeth wedi'i gymeradwyo, mae yna reoliadau gwahanol sy'n berthnasol i'ch cais. Nid oes Cam 1 a Cham 2, ond gallwch fynd yn syth ymlaen at y broses asesu (Cam 2), a bydd eich aseswr yn penderfynu pa wiriadau Cam 1 y bydd angen i chi eu cwblhau, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau personol. Byddwn yn cynnal unrhyw wiriadau Cam 1 neu'n gwneud unrhyw dasgau Cam 1 ar yr un pryd â'r broses Cam 2.

Mae hyn yn golygu y dylai'r asesiad cyfan fod wedi ei gwblhau ymhen pedair mis. Mae hyn yn gofyn am gryn dipyn o ymrwymiad gennych chi yn ogystal â'r asiantaeth fabwysiadu. Mae yna ddarpariaethau o fewn y rheoliadau i ganiatáu cyfnod 'oedi a myfyrio' o fewn Cam 2 ac efallai yr hoffech feddwl am ddefnyddio'r ddarpariaeth hon ar ryw adeg yn ystod yr asesiad, ar ôl trafod gyda'ch aseswr. Efallai na fydd angen y cyfnod hwn arnoch, ond mae yno rhag ofn.

Manylion y cyswllt nesaf